



YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



26/4/21

Annwyl Rieni,

Diolch am drefnu eich apwyntiad ar gyfer ein nosweithiau rheini. Mae apwyntiadau wedi eu trefnu ar gyfer 83% o'n disgyblion - gwiriwch ddyddiad ac amser eich apwyntiad ar y system os gwelwch yn dda. Os nad ydych wedi llwyddo i drefnu apwyntiad hyd yma ac yn awyddus i gyfarfod athro(awes) eich plentyn 'fory neu ddydd Mercher, yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

Fel y nodais yn fy llythyr blaenorol, mae symud i gynnal nosweithiau rhieni ar-lein drwy gyfarfodydd fideo o bell yn gam mawr i ni ac yn newid sylweddol i bawb ac felly rydym yn gwerthfawrogi eich amynedd tra y byddwn yn rhoi hyn ar waith am y tro cyntaf.

I'n helpu i sicrhau y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn hwylus ac yn effeithiol, nodwch y canlynol os gwelwch yn dda:

- Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi, cliciwch ar '*Join Video Appointments*'
- Unwaith y byddwch wedi clicio'r botwm yma, bydd opsiwn i wirio'ch sain a'ch camera ar gyfer y cyfarfod ar-lein. **Byddwch yn gallu gwneud hyn unrhyw dro cyn eich cyfarfod er mwyn i chi allu gwirio'ch camera a'ch sain.** Os bydd trafferthion, efallai fydd rhaid i chi glacio ar '*Device Settings*' i addasu'ch gosodiadau. (Os byddwch yn parhau i gael trafferth gyda'r sain/camera, byddwch angen ystyried defnyddio dyfais arall).
- I ddechrau'r galwad gyda'r athro(awes), pwyswch y botwm '*start appointment*' a disgwylwch i'r athro(awes) gysylltu. **Nodwch, os gwelwch yn dda, y bydd y system yn dod â'r cyfarfod i ben ar ôl 8 munud** – os oes unrhyw bryder neu faterion pellach yr hoffech eu trafod, yna cysyllwch â'r athro(awes) dosbarth y diwrnod canlynol.
- **Er mwyn gwneud galwadau fideo rydych angen dyfais gyda meicroffon, seinydd a phorwr gwe addas:**
 - iPhone/iPad:** Safari (byddai'n syniad da sicrhau fod eich dyfais Apple wedi'i ddiweddarau ac yn ddefnyddio'r iOS diweddaraf)
 - Android:** Chrome neu Firefox
 - Windows:** Chrome, Firefox neu Microsoft Edge
 - Mac:** Safari, Chrome neu Firefox
 - Linux:** Chrome neu Firefox
- **Rydym hefyd yn argymhell defnyddio'ch ffôn glyfar ar gyfer apwyntiadau fideo.** Os nad oes ganddoch ffôn glyfar gyda camera ar ei flaen, defnyddiwch liniadur neu gyfrifiadur gyda gwe-gamera.

Petaech angen rhagor o gyfarwyddiadau, mae SchoolCloud wedi creu fideo fel canllaw i rieni: <https://vimeo.com/473882995> (ewch â'r fideo ymlaen i 4:20)

Peidiwch â phoeni os na fyddwch yn llwyddo i gysylltu i'r alwad fideo, fe wnawn gysylltu â chi y diwrnod canlynol i ail drefnu cyfarfod.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Cofion,

Iwan Wyn Taylor
(Pennaeth)